**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 8fed Tachwedd, 2022, 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol Tony Easson (Cadeirydd) |
| | Cynghorydd Sirol: John Crook, Christopher Edwards, Simon Howarth, Jane Lucas, Alistair Neill, Sue Riley, Dale Rooke, Jackie Strong, Ann Webb, Armand Watts |

## SWYDDOGION YN BRESENNOL:

| | |
|---|---|
| David Jones | Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd |
| Linda O'Gorman | Principal Licensing Officer |
| Leigh Beach | Swyddog Trwyddedu |
| Ben Davies | Solicitor |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Lisa Dymock

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **I gadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24ain Mai 2022**

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywrain.

3. **Polisi Tacsis a Llogi Preifat**

Roedd y Prif Swyddog Trwyddedu wedi cyflwyno'r adroddiad ar y Polisi Tacsis a Hurio Preifat. Pwrpas yr adroddiad yw hysbysu Aelodau o ofynion y Safonau Statudol ar gyfer Tacsis a Hurio Preifat gan yr Adran Drafnidiaeth a Chanllaw Harmoneiddio Llywodraeth Cymru ar Drwyddedu Cerbydau Tacsi a Hurio Preifat yng Nghymru. Mae'r ddau yn golygu bod angen adolygu'r Polisi ac Amodau Hurio Cerbydau Hackney a Hurio Preifat

Wedi cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Roedd Aelod wedi gofyn sut y mae gwiriadau cofnodion troseddol tramor yn cael eu cynnal os nad oes yna gysylltiad gyda ffeiliau data'r Undeb Ewropeaidd. Esboniwyd fod hyn yn ddibynnol ar ble y mae'r unigolyn wedi bod yn byw cyn symud i'r DU. Mae yna ganllawiau a gwybodaeth gan y Swyddfa Gartref ac ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Byddent yn cysylltu gyda'r Llysgenhadaeth am Dystysgrif o Ymddygiad Da neu rywbeth tebyg. Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd nad yw Trwyddedu yn chwarae rhan yn y costau ar gyfer cynnal gwiriadau gan mai'r Gwasanaeth Datgelu a

Gwahardd sydd yn gyfrifol am hyn. Awgrymwyd bod, yn ddibynnol ar y wlad Ewropeaidd dan sylw, yna bosibilrwydd o wahaniaethu ariannol ar gyfer deiliaid pasbortau Ewropeaidd. Dywedwyd fod problemau yn ymwneud gyda thalu'r costau yn fater i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw cynnal y gwiriadau cywir. Bydd swyddogion yn gwneud mwy o ymchwil ac yn gwneud ymholiadau gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cadarnhau a oes yna drefniadau i ad-dalu unrhyw berson sydd yn methu fforddio talu'r costau. Awgrymodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd y byddai gwybodaeth am y gwahaniaeth rhwng gweithiwr o'r DU a gweithiwr o wlad dramor yn ddefnyddiol. Bydd y wybodaeth yma'n cael ei hymchwilio yn ystod y cyfnod ymgynghori.

- Roedd Aelod wedi gwneud cais fod gyrwyr yn cael eu profi'n llawn er mwyn cadarnhau eu bod yn ddiogel ar y ffordd, sef prawf os yn bosib ar gyfer gyrwyr tacsis. Cytunwyd y byddai'r pwynt hwn yn cael ei ystyried yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r adborth yn cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru
- Gofynnwyd i Aelod am y trefniadau gorfodaeth trawsffiniol gan fod Sir Fynwy ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r elfen Gymreig wedi ei datganoli i Gymru ond mae hyn yn dilyn polisi'r Adran Drafnidiaeth a bydd mwy o weithio ar y cyd yn digwydd yn y dyfodol.

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, roedd yr Aelodau wedi nodi cynnwys yr adroddiad a'r angen i adolygu ein trefniadau, polisi ac amodau'r drwydded er mwyn cydymffurfio gyda'r Safonau Statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn pleidlais, roeddem wedi cytuno i gymeradwyo'r broses ymgynghori gyda'r fasnach drwyddedig ar y newidiadau arfaethedig rhwng 14eg Tachwedd a'r 30ain Rhagfyr 2022, ac wedi cytuno i gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio i'w ystyried ar 31ain Ionawr.

4. **<u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.</u>**